

# ARCHWILIWCH Y BYD DYSGU

## RHOWCH DRO AR RYWBETH NEWYDD

Mwynhewch un o'n cyrsiau diddorol. Does dim gwahaniaeth os na fuoch yn rhan o'r byd addysg ers tro. Mae gennym rywbeth at ddant pawb.



## GWELLWCH EICH SGILIAU

Gall ein tîm sgiliau hanfodol eich helpu i gael hyd i'r cwrs cywir i wella a datblygu eich sgiliau sylfaenol.

## EWCH YN GREADIGOL

Dysgwch sgil creadigol newydd mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar.



## CWRDD Â PHOBL NEWYDD

Dewch i adnabod pobl eraill yn eich cymuned leol a mwynhewch eich taith dysgu gyda'ch gilydd.

# DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED NHORFAEN

## TYMOR HYDREF 2026

# CROESO

Yma, yn Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Nhorfaen, rydym yn dîm o addysgwyr cyfeillgar ac ymroddgar, sy'n credu y dylai dysgu fod yn agored, yn groesawgar ac yn bleserus i bawb, beth bynnag yw eich cefndir neu eich gallu.

Rydym yn gwybod bod pawb yn dysgu yn eu ffordd eu hunain ac yn dod i ddysgu am wahanol resymau. P'un a ydych chi'n cymryd eich cam cyntaf, am feithrin hyder, am newid cyfeiriad, neu am ddysgu er mwynhad, rydyn ni yma i'ch cefnogi.

Dyna pam rydyn ni'n canolbwyntio ar ddull personol, hyblyg, sy'n gweddu i'ch anghenion a'ch nodau unigol. Gall y cyfle dysgu cywir newid bywyd, ac rydym yn falch i helpu dysgwyr i ddarganfod beth maen nhw'n gallu ei wneud.

Rydym yn falch iawn i rannu ein hystod eang o gyfleoedd newydd ac ysbrydoledig i oedolion yn ein cymunedau lleol. Mae ein cyrsiau wedi'u cynllunio i gefnogi lles personol, datblygu sgiliau ar gyfer gwaith, ac annog dysgu gydol oes ar bob cam o fywyd.

Gallwch ddysgu gyda ni wyneb yn wyneb mewn lleoliadau lleol a chroesawgar, fel canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd neu beth am ddewis y cyfle i ddysgu ar-lein sy'n gweddu i'ch bywyd chi.

Cymerwch ychydig o amser i bori drwy ein llawlyfr cyrsiau a darganfod pynciau, sy'n cynnwys mathemateg, Saesneg, sgiliau digidol, celf a chrefft, ieithoedd, addysg gyffredinol a mwy.

Mae ein cyrsiau hefyd yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd, rhannu profiadau, a meithrin cysylltiadau ag eraill sy'n rhannu eich diddordebau.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu a bod yn rhan o'ch taith ddysgu.

**Angela Price, Dyheadau Rheolwr Grŵp Ymgysylltu â Chwsmeriaid**

## Amdanom Ni

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Nhorfaen yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cyflwyno gwersi o ansawdd uchel sy'n hwyl ac yn bleserus i'n dysgwyr.

Bydd ein tiwtoriaid ymroddedig yn rhannu eu blynyddoedd o arbenigedd a phrofiad gyda chi, gan eich ysbrydoli i fynd â'ch sgiliau i'r lefel nesaf.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol amseroedd, sy'n golygu y gallwch ddewis cwrs ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus i chi, yn cynnwys:

Mae llawer o'n dysgwyr yn cael boddhad mawr wrth barhau â'u haddysg. Gall dysgu rhoi ffocws i chi neu gynnig profiadau newydd i chi eu rhannu gyda'ch ffrindiau a'ch teulu, yn ogystal â rhoi ymdeimlad braf o gyflawniad.

Fel prif ddarparwr addysg gymunedol yn y fwrdeistref, rydym yn sicrhau bod ein cyrsiau o'r safon uchaf.

Rydym yn dilyn fframweithiau cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol ochr yn ochr â fframweithiau hamdden sy'n cael eu cyflwyno gan diwtoriaid profiadol ac ymroddedig.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i degwch a chydraddoldeb yn nhermau mynediad, cyfle a chanlyniad i bob dysgwr.

Rydym yn erbyn gwahaniaethu ar unrhyw ffurf ac mae gennym ymrwymiad i sicrhau bod ein cyrsiau'n gynhwysol ac ar gael i bawb. Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth.

## Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein holl ddysgwyr, staff, gwirfoddolwyr a phawb sy'n defnyddio'r ganolfan.

Rydym am i chi deimlo'n ddiogel a pheidio â chael eich bygwth gan yr amgylchedd neu bobl eraill, ac mae gennym bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw bryderon diogelu sy'n codi.

Anogir dysgwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt.





# SUT I GOFRESTRU

## Talu am eich cwrs

Gallwch dalu gyda cherdyn credyd neu ddebyd dros y ffôn neu'n bersonol yn unrhyw un o'n canolfannau.

Pan fydd tâl, yna er mwyn sicrhau lle ar eich cwrs, bydd angen i chi dalu lleiafswm o 50% o gost y cwrs (**na ellir ei ad-dalu na'i drosglwyddo**). Gellir talu'r gweddill ar unrhyw adeg cyn dechrau'r cwrs, ond nid yn hwyrach na 4 wythnos ar ôl y dyddiad cychwyn. Rhoddir lleoedd ar y cwrs ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu.

**NODWCH: Rhaid talu'n llawn ar adeg cofrestru am gyrsiau sy'n 8 wythnos neu lai.**

Mae Dysgu Cymunedol I Oedolion Torfaen yn cadw'r hawl i ganslo a newid cyrsiau.

Mewn achosion o'r fath, rhoddir ad-daliad llawn neu gymesur. Ni fydd dosbarthiadau and ydynt yn cyrraedd y nifer angenrheidiol o ddysgwyr yn dechrau.

Unwaith y bydd dysgwr wedi cofrestru ar gwrs, bydd yn gyfrifol am yr holl gostau.

**Ni roddir ad-daliadau oni bai bod y cwrs yn cael ei ganslo.**

## Ffioedd Ychwanegol

Mae ffioedd aelodaeth defnyddwyr y ganolfan yn berthnasol i gwrs o **ddau** sesiwn neu fwy.

Mae rhai cyrsiau yn galw ar ddysgwyr i brynu deunyddiau ar gyfer eu prosiectau eu hunain.

## Hygrchedd

Mae ein canolfannau'n gwbl hygyrch.

Er mwyn sicrhau bod eich ymweliad yn mynd yn dda, cysylltwch â ni cyn i chi ymweld ag fe wnawn ni bob peth i'ch cefnogi chi gyda'ch dysgu.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae cyrsiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Nodwch eich dewis pan fyddwch yn cofrestru.

## Dros y ffôn neu'n bersonol

Gallwch gofrestru ar gyrsiau trwy ffonio 01633 647647 neu drwy ymweld â un o'n canolfannau lle bydd ein tîm yn hapus i roi mwy o wybodaeth i chi a'ch helpu i gofrestru.

Ein oriau agor yn ystod y tymor yw Dydd Llun i Ddydd Iau 8.30yb nes 9.15yh a Dydd Gwener 8.30yb nes 4.00yp.

Ein oriau agor yn ystod gwyliau'r ysgol yw Dydd Llun i Ddydd Iau 08.30yb nes 4.30yp a Dydd Gwener 08.30yb nes 4.00yp.

## Nodwch os gwelwch yn dda

Mae Dysgu Cymunedol I Oedolion Torfaen yn cymryd pob cam rhesymol i ddarparu'r gwasanaethau a chysiau yn y canllaw hwn. Serch hynny nid yw hyn yn gwarantu darparu'r gwasanaethau hynny.

Mae darparu'r cyrsiau'n dibynnu ar fod yna ddigon o alw. Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn gywir wrth i'r llyfryn fynd i'r wasg.

Ni dderbyniwn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu hepgoriadau ac rydym yn cadw'r hawl newid, diwygio neu ddileu cyrsiau a restrir heb rybudd.



# SGILIAU HANFODOL

## Pam mae angen sgiliau hanfodol ar oedolion sy'n dysgu?

Mae llawer o resymau pam y mae oedolion yn dewis gwella eu sgiliau hanfodol: darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando sgiliau digidol neu sgiliau mathemateg.

Nid yw'n bwysig os ydych wedi bod i ffwrdd o ddysgu am flynyddoedd, gallwn eich helpu i wella eich sgiliau a'ch hyder. Mae ein cyrsiau ar agor i oedolion o bob oed a lefel.

P'un a ydych yn anelu i ddatblygu'r sgiliau sydd gennych, ennill cymwysterau, gwella cyfleoedd gwaith neu gefnogi'ch teulu neu ffrindiau gyda'u sgiliau bywyd bob dydd, mae cyfleoedd ar gael ar eich cyfer.

Gallwch ymuno â'n cyrsiau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Mae gennym leoliadau ledled y fwrdeistref.

Mae sesiynau ar gael yn y bore, yn y prynhawn a gyda'r nos.

## Beth yw manteision mynd i ddosbarthiadau sgiliau hanfodol?

Gallu gwella'ch hyder a'ch sgiliau:

- \* Mathemateg
- \* Saesneg
- \* Sgiliau Digidol
- \* Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL)



## Pam dewis Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Nhorfaen?

- \* Mae'r holl hyfforddiant y cyrsiau sgiliau hanfodol **am ddim** (efallai y bydd ffioedd ychwanegol yn berthnasol)
- \* Mae ein hamgylchedd dysgu yn ddiogel ac yn groesawgar
- \* Mae ein tiwtoriaid yn brofiadol, yn gyfeillgar ac yn amyneddgar
- \* Mae ein dosbarthiadau yn hamddenol heb unrhyw bwysau
- \* Nid oes angen unrhyw gymwysterau blaenorol
- \* Gallwch ddysgu ar eich cyflymder eich hun

P'un ai ydych chi'n dechrau o'r dechrau neu'n rhoi sglein ar hen sgiliau, byddwn yn eich helpu bob cam o'r ffordd.

Mae dysgu'n ymwneud â hyder, nid â bod yn holl wybodus!

I gael cyngor ar gael hyd i'r cwrs cywir i chi, ffoniwch ein tîm sgiliau hanfodol cyfeillgar ar  
01633 647647 Opsiwn 4  
neu e-bostiwch [essentialskills@torfaen.gov.uk](mailto:essentialskills@torfaen.gov.uk)

# SGILIAU HANFODOL - Llên a Llafar

Mae ein dosbarthiadau llythrennedd yn cael eu cynllunio'n ofalus i helpu oedolion sy'n ddysgwyr i wella'u sgiliau ysgrifennu (sillafu, atalnodi a gramadeg), darllen, a'u sgiliau cyfathrebu bob dydd (siarad a gwrando).




## Ysgrifennu Creadigol

Ydych chi erioed wedi bod eisiau ysgrifennu ond ddim yn gwybod ble i ddechrau? Dysgwch hanfodion ysgrifennu creadigol: creu cymeriadau, themâu, archwilio ffurfiau a phlotiau.

## \*NEWYDD\* Cyflwyniad i Lenyddiaeth Saesneg

Cwrs i ddarllenwyr hyderus a fydd yn canolbwyntio ar ystod eang o ffurfiau fel nofelau, barddoniaeth, a straeon byrion. Mwynhewch ysgrifau awduron modern a hanesyddol. Gyda'n gilydd byddwn yn ymchwilio i'r plotiau a'r cymeriadau.



## \*NEWYDD\* Sgwrs am Hanes

Darganfyddwch a thrafodwch y bobl, y digwyddiadau a'r straeon sydd wedi llunio ein byd, gan gynnwys gwrthdaro a throeon tyngedfennol, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

## \*NEWYDD\* Beth sydd yn y newyddion?

Hoffech chi allu darllen erthyglau newyddion yn hyderus a chymryd rhan mewn dadl iach yn yr ystafell ddosbarth amdanynt? Bydd y cwrs hwn yn rhoi sgiliau gwerthfawr i chi mewn darllen at bwrpas, casgliad, deall yr hyn rydych chi'n ei ddarllen, a chymryd rhan mewn trafodaeth strwythuredig.



## Sgiliau Hanfodol i Rieni

Wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer rhieni sydd eisiau cefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd eu plentyn. Archwiliwch ffyrdd o annog cariad at ddarllen, ysgrifennu a gwaith rhifau.

# SGILIAU HANFODOL - ESOL

Mae ein cyrsiau ESOL yn helpu oedolion i ddatblygu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.

Pwrpas ein cyrsiau ESOL yw eich helpu i gyfathrebu'n fwy hyderus, gwella eich sgiliau Saesneg ar gyfer byd gwaith, cefnogwch eich teulu, a gwneud gweithgareddau dydd i ddydd.

## Dechreuwyr

I ddysgwyr sy'n dechrau ar eu taith Saesneg. Cwrs rhagarweiniol i ddechreuwyr llwyr a'r rhai sydd ag ychydig o sgiliau llythrennedd yn Saesneg neu heb sgiliau o gwbl.

## Gwellwyr

I ddysgwyr sydd â rhywfaint o wybodaeth sylfaenol o'r Saesneg, sydd eisiau cynyddu eu sgiliau presennol ac angen gweithio ar ramadeg a geirfa yn ogystal â sgiliau siarad a gwrando.



# SGILIAU HANFODOL - Sgiliau Digidol

O ddechreuwr pur i ddefnyddwyr mwy hyderus, bydd ein cyrsiau'n eich helpu i ddatblygu sgiliau digidol ar gyfer bywyd pob dydd, gwaith a chyfathrebu.

-  Dysgwch beth yw DA a sut mae'n newid bywyd bob dydd. Archwiliwch i beth yw DA, dysgwch am fanteision ac anfanteision DA, a dysgwch sut i ddefnyddio offer DA yn ddiogel.
-  Cewch gynghorion gwerthfawr ynglŷn â sut i aros yn ddiogel ar-lein, gan gynnwys sut i ddefnyddio nodweddion diogelwch i amddiffyn dyfeisiau digidol a gwybodaeth, a sut i weld beth sy'n wir a beth nad sydd.
-  Mae byd o wybodaeth ar flaenau eich bysedd os ydych chi'n gwybod sut i ddod o hyd iddo. Chwiliwch yn ddoethach nid yn galetach.
-  Dysgwch sut i gynhyrchu dogfennau trwy brosesu geiriau gan ddefnyddio Google Docs, taenlenni gan ddefnyddio Google Sheets, neu gyflwyniadau gan ddefnyddio Google Slides. Byddwch yn creu dogfennau proffesiynol mewn dim o dro!
-  Rheoli ffeiliau: lluniau, dogfennau, gwybodaeth bersonol. Deall storio cyfrifiadurol a storio yn y cwmwl.
-  Gwneud i offer hygyrchedd weithio i chi.

## Hanes Teulu (Achau)

Defnyddiwch sgiliau digidol i ymchwilio i'ch hanes teuluol. Bydd ein cyrsiau'n eich helpu i gynllunio strategaeth ac yn dangos i chi sut i fynd at amrywiaeth o adnoddau ar-lein.

# SGILIAU HANFODOL - Rhifedd

Mae mathemateg yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, o siopa, coginio, DIY neu gynllunio gwyliau. O ddechreuwr pur i ddefnyddwyr mwy hyderus, bydd ein cyrsiau'n eich helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd bob dydd, gwaith ac addysg bellach. Dim pwysau, dim beirniadaeth, dim ond dysgu cefnogol ar eich cyflymder eich hun.

- ✚ Rheoli eich siopa.
- ✖ Pwysau a mesurau ar gyfer coginio.
- ✚ Cynllunio a throsi arian cyfred ar gyfer gwyliau.
- ✖ Mesur ac amcangyfrif ar gyfer prosiectau DIY.
- ✚ Datrys problemau, posau, hwyl gyda rhifau.
- ✖ Deall biliau, rheoli arian a chyllidebu.
- ✚ Teimlo'n hyderus wrth helpu gyda gwaith cartref.
- ✖ Hyder wrth adio, lluosio, tynnu, rhannu, canrannau ac ystadegau.

## Cofrestrwch heddiw a dysgwch y gall mathemateg wneud synnwyr!

I gael cyngor ar ddod o hyd i'r cwrs cywir i chi, ffoniwch ein tîm sgiliau hanfodol trwy 01633 647647, Opsiwn 4  
neu drwy e-bost [essentialskills@torfaen.gov.uk](mailto:essentialskills@torfaen.gov.uk)



# GALW-HEIBIO DIGIDOL

## SESIYNAU GALW-HEIBIO DIGIDOL YN Y LLYFRGELL

**Sesiynau galw-heibio i roi cymorth a chefnogaeth gyda'ch cwestiynau am sgiliau neu ddyfeisiau digidol**

### **Llyfrgell Blaenafon**

**Canolfan Treftadaeth y Byd a Llyfrgell Blaenafon, Church Road, Blaenafon, NP4 9AS**

**a**

### **Llyfrgell Pont-y-pŵl**

**Hanbury Road, Pont-y-pŵl NP4 6JL**

***Bob yn ail ddydd Iau 10:00 - 12:00***

### **Llyfrgell Cwmbrân**

**Tŷ Gwent, Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1XQ**

***Dydd Llun 10:00 - 12:00***



Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Nhorfaen

***Diddordeb mewn  
bod yn diwtor?***

***Siaradwch â ni  
heddiw!***

**01633 647647**



# FFORDD O FYW A HAMDDEN

Trwy ein cyrsiau Bywyd a Hamdden, mae yna gyfle i chi wella'ch sgiliau creadigol, ffeindio cariad at hobi newydd neu wella'ch llesiant. Mae gwella'n llesiant yn gallu lleihau straen a'n helpu i ffocysu o'r newydd mewn byd sy'n aml yn heriol.

Mae ein hamrywiaeth eang o gyrsiau yn cael eu cyflwyno gan ein tiwtoriaid medrus a brwdfrydig, a fydd yn eich croesawu p'un ai ydych chi'n ddysgwyr newydd neu'n dysgu yn barod. Byddan nhw'n eich cefnogi mewn amgylchedd anffurfiol, cyfeillgar wrth i chi weithio ar gyflawni eich dyheadau a'ch nodau chi'ch hun.

Mae ein cymuned yn cofleidio'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd, wynebu heriau newydd a dod yn fwy cydnherth – ac fe allech chi hefyd!

Gwnewch gais am le ar un o'n cyrsiau nawr. P'un ai ydych chi'n bobydd brwd, yn egin-wniadydd neu'n deithiwr sydd eisiau dysgu'r iaith leol, mae gennym rywbeth at ddant pob un.

## Cyrsiau Celf a Chrefft

Ffeindiwch eich ochr creadigol trwy ymuno ag un o'n cyrsiau celf a chrefft. Dewch i brofi'r wefr o ddylunio, uwchgylchu, creu a gwneud gwrthrychau â llaw, i chi'ch hun neu fel rhodd i'w rhoi i'ch anwyliaid.

## Cyrsiau Iaith

Mae dysgu iaith yn gallu trawsnewid eich bywyd mewn sawl ffordd. Bydd mwy o gyfle i gwrdd â phobl newydd, darganfod diwylliannau newydd a'u gwerthfawrogi. Gall teithio fod yn antur go iawn. Beth bynnag yw'ch rheswm, mae gennym ni gwrs i bob un.

## Addysg Gyffredinol

Eisiau dysgu iaith Arwyddion Prydain neu ddysgu am Ryfeddodau'r Byd Hynafol? Efallai eich bod chi'n ffotograffydd newydd neu â'ch bryd ar ein Bydysawd. Beth bynnag yw'ch rheswm, mae gennym rywbeth at ddant pawb.

## Gitarau

Os ydych chi am wella a gwella eich sgiliau presennol, mae gennym ni gwrs gitâr sy'n iawn i chi.



## Cyrsiau Ceginio

Dewch i archwilio diwylliannau gwahanol a'u bwydydd traddodiadol, mewn sesiynau fydd yn siŵr o dynnu dŵr o'ch dannedd. Cymerwch y cyfle i ddatblygu'ch gwybodaeth a'ch sgiliau i gynllunio a chreu bwydydd cartref iach a fforddiadwy, gan ddefnyddio cynhwysion bob-dydd. Mae'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar dechnegau dilys a chynhwysion sylfaenol i wneud pryddau cost-effeithiol.



# CYNGOR A CHYNGOR

## AIM LEFEL 2 a LEFEL 3 TYSTYSGRIF SGILIAU CWNSELA

**Os ydych chi'n ystyried y cwrs Lefel 2 neu Lefel 3 Sgiliau Cwnsela, ymunwch â ni ar ein diwrnod sefydlu.**

**Wrth ddod i'r diwrnod sefydlu byddwch yn gallu:**

- \* **Cael gwybod a ydych chi'n gymwys i fod ar y cwrs**
- \* **Cael syniad o gynnwys y cwrs, ei fformat a'r cymhwyster**
- \* **Dysgwch fwy am y broses achredu**

**Rhaid trefnu lleoedd ymlaen llaw, ac mae'n ofynnol i ddysgwyr ddod i'r sesiwn lawn.**

**Dydd Iau 16 Gorffennaf 2026, 5.00pm - 8.30pm**  
**Y Pwerdy, Blenheim Road, Sain Derfel, Cwmbrân, NP4 4SY**



## Chwilio am Gwrs

Mae llawer o gyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael.

Eisiau cymorth i chwilio am gwrs? E-bostiwrch  
[swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru)

## Find a Course

There are many Learn Welsh courses available.

Need help searching for a course? E-mail  
[office@learnwelsh.cymru](mailto:office@learnwelsh.cymru)



[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)

# CYMWYSTERAU A SGILIAU CYFLOGAETH

## TGAU - WJEC

Ein cyrsiau TGAU Mathemateg a Saesneg hynod lwyddiannus yw'r porth i ddyfodol mwy disglair. Gallent fod yn daith i fyd gwaith, cyrchnodau newydd mewn gyrfa neu fynediad i addysg uwch. Mae'r cyrsiau dwys hyn yn galw am bresenoldeb rheolaidd a gwaith ychwanegol yn y cartref. Maent yn dilyn maes llafur a phynciau CBAC, gan arwain at yr arholiadau sydd wedi eu trefnu ym mis Mai a Mehefin 2027.

**Saesneg** - Bydd angen i chi fod yn ddarllenwr da, bod yn hyderus wrth ysgrifennu, gallu mynegi eich syniadau ac ymateb mewn trafodaeth. Byddwch yn dilyn maes llafur a osodwyd gan CBAC a fydd yn cynnwys darllen a gwerthuso testunau yn feirniadol, crynhoi a chyfuno gwybodaeth a syniadau, ysgrifennu'n effeithiol gan ddefnyddio Saesneg safonol, gramadeg, atalnodi a sillafu.

**Mathemateg** - Bydd angen i chi gael dealltwriaeth sylfaenol dda o egwyddorion mathemategol. Byddwch yn dilyn maes llafur CBAC a bydd y pynciau'n cynnwys rhif, trin data, algebra a siâp.

## **\*Newydd\*** Sgiliau Hanfodol Cymru

Gall cymwysterau Cyfathrebu a Rhifedd Lefel 2, Sgiliau Hanfodol Cymru eich helpu i ddatblygu sgiliau hanfodol o ran twf personol ac i ddatblygu gyrfa. Gall dysgwyr ennill sylfaen gadarn mewn sgiliau allweddol fel cyfathrebu, rhifedd a sgiliau digidol. Mae'r cymwysterau hyn yn aml yn rhagofyniad ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau a chyfleoedd gyrfa eraill.

## Sgiliau Cwnsela Lefel 2 a Lefel 3 - AIM

Mae cyfres cymwysterau cwnsela AIM ar gael i ddysgwyr ar wahanol gamau yn eu gyrfaedd yn y maes cwnsela. Maent wedi'u cynllunio yn ôl gofynion cyrff cwnsela proffesiynol i achredu cwnselwyr, ac maent wedi'u strwythuro i sicrhau bod eu gofynion yn cwmpasu oriau dysgu dan arweiniad ac ymarfer dan oruchwyliaeth.

**Sgiliau Cwnsela Lefel 2 Cymwysterau AIM** - Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i wreiddiau theori cwnsela a sut mae theori yn sail i sgiliau cwnsela. Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o'r tri phrif faes theori cwnsela a sut y gallant ymwneud ag ymarfer cwnsela. Bydd dysgwyr hefyd yn dechrau datblygu eu sgiliau ymarferol wrth ddatblygu, cynnal a chwblhau sesiwn cwnsela sylfaenol, gan roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt wrth ymarfer o fewn ffiniau fframwaith moesegol.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio fel cam ar yr ysgol tuag at ddatblygiad proffesiynol, i'r rheini sy'n dyheu i fod yn gwnselwyr a'r rheini sydd eisoes yn ymarfer. Gall dysgwyr symud ymlaen i Dystysgrif Cwnsela Lefel 3 Cymwysterau AIM.

**Tystysgrif Cwnsela Lefel 3 Cymwysterau AIM** - Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i weithio tuag at ddod yn gwnselydd sy'n ymarfer mewn modd myfyriol, drwy ystyried damcaniaethau fel datblygiad dynol, hunanymwybyddiaeth, goruchwyliaeth a materion fel gwahaniaeth ac amrywiaeth. Mae hefyd yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am y prif ddamcaniaethau craidd a'r damcaniaethwyr hynny sy'n sail i gwnsela. Mae hefyd yn mynd i'r afael â natur problemau seicolegol a sut y gellir mynd i'r afael â nhw.

Bydd y sgiliau a'r wybodaeth arbenigol a feistrolir yn y cymhwyster hwn yn berthnasol mewn ystod o gyd-destunau gwaith. Bydd yn galluogi dysgwyr i ddeall yr angen am ddealltwriaeth gadarn am ddull damcaniaethol cydlynol wrth gwnsela neu gefnogi eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig cyn dechrau gweithio mewn lleoliad dan oruchwyliaeth os yw dysgwyr yn symud ymlaen i Lefel 4.

## **\*NEWYDD\*** Sgiliau Hanfodol ar gyfer Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

Os ydych yn chwilio am lwybr at gymhwyster neu'n ystyried gweithio gyda phlant neu bobl ifanc, mae gennym ni'r cwrs i chi.

## Cymhwyster mewn Deall Llesiant Meddyliol Lefel 2 - RSPH

Amcan y cymhwyster hwn yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ymgeiswyr am egwyddorion llesiant meddyliol, effaith llesiant meddyliol ar yr unigolyn a'r gymuned, a sut y gellir cynnal llesiant meddyliol neu ei wella.

Bydd y cymhwyster yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd llesiant meddyliol, y modelau damcaniaethol y gellir eu defnyddio i'w ddisgrifio a'r ffactorau a allai ei effeithio.

## Cymhwyster mewn Ymwybyddiaeth o Asbestos Lefel 1 - Highfield

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer y rhai a allai ddod ar draws asbestos yn eu hamgylchedd gwaith. Mae'n rhoi trosolwg syml o'r risgiau.

Bydd deiliaid y cymhwyster hwn yn gallu esbonio effeithiau asbestos ar iechyd unigolion, y mathau o ddeunydd sy'n debygol o gynnwys asbestos, lleoliad y deunyddiau hyn o fewn adeiladau, a'r camau i leihau'r perygl o ryddhau ffibr asbestos.

## Cymhwyster mewn Egwyddorion Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân Lefel 1 - Highfield

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at yr holl staff, yn enwedig dechreuwyr newydd mewn unrhyw weithle, lle mae angen dealltwriaeth sylfaenol o ddiogelwch tân. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Egwyddorion ymwybyddiaeth diogelwch tân
- Peryglon a risg o dân yn y gweithle
- Rheoli risgiau tân

## Diogelwch Bwyd ar gyfer Arlwyyo – Cymhwyster Lefel 2 - Highfield

Amcan y cymhwyster hwn yw paratoi dysgwyr fydd yn gweithio mewn rôl arlwyyo, neu gefnogi rôl arlwyyo yn y gweithle. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Pa mor bwysig yw hylendid a chadw'n lân, i'r rheini sy'n trin a thrafod bwyd
- Cadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan
- Pwysigrwydd cadw cynhyrchion bwyd yn ddiogel
- Egwyddorion diogelwch bwyd

## Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys Lefel 3 - QA

Mae'r cymhwyster hwn sy'n cael ei rheoleiddio a'i gydnabod yn genedlaethol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol sydd eu hangen i ddelio ag ystod o sefyllfaoedd cymorth cyntaf pediatrig brys a allai godi wrth ofalu am blant.

Y Gynulleidfa:

- Y rhai sydd wedi ennill cymhwyster gofal plant lefel 2 neu 3 ac sydd wedi cychwyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar ac yn dymuno cael eu cynnwys yn y cymarebau staff i blant i gydymffurfio â gofynion EYFS.
- Unrhyw un sy'n gofalu am fabanod a phlant, fel rhieni, gwarcheidwaid, neiniau a theidiau neu'r rhai sydd â chysylltiad â babanod a phlant, ac sydd eisiau dysgu sgiliau cymorth cyntaf pediatrig allweddol.

## Cymhwyster mewn Hanfodion Cymorth Cyntaf Lefel 2 - QA

Mae'r cymhwyster hwn sy'n cael ei rheoleiddio a'i gydnabod yn genedlaethol yn galluogi dysgwyr i ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i roi cymorth cyntaf yn ddiogel, yn brydlon ac yn effeithiol mewn sefyllfaoedd a all godi wrth ofalu. Yn ystod y cwrs undydd hwn, bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r eth sydd eu hangen i ddelio ag amrywiaeth o sefyllfaoedd cymorth cyntaf, gan gynnwys: delio â chlaf nad yw'n ymateb, adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), tagu, gwaedu allanol, sioc a mân anafiadau.

**COFRESTRWCH I DDANGOS DIDDORDEB**  
**01633 647647 Opsiwn 1**





# CANOLFAN ADDYSG GYMUNEDOL CROESYCEILIOG

The Highway, Croesyceiliog, NP44 2HF

01633 647647 Opsiwn 2

croesy.commed@torfaen.gov.uk



## CYMWYSTERAU

| CWRS                                                            | COD    | DYDD | AMSER<br>DECHRAU | AMSER<br>DIWEDD | DYDDIAD<br>CYCHWYN | HYD      | FFI     |
|-----------------------------------------------------------------|--------|------|------------------|-----------------|--------------------|----------|---------|
| Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys                                   | DGC003 | Gw   | 09:00            | 16:30           | 13/11/2026         | 1 sesiwn | AM DDIM |
| Hanfodion Cymorth Cyntaf Lefel 2                                | DGC004 | Gw   | 09:00            | 16:30           | 25/09/2026         | 1 sesiwn | AM DDIM |
| Sgiliau Hanfodol ar gyfer Gweithio gyda<br>Phlant a Phobl Ifanc | DEC003 | Me   | 13:00            | 15:00           | 23/09/2026         | 15 wyth. | £3.00 ⑤ |

## FFORDD O FYW A HAMDDEN

### Cerddoriaeth

| CWRS                          | COD    | DYDD | AMSER<br>DECHRAU | AMSER<br>DIWEDD | DYDDIAD<br>CYCHWYN | HYD      | FFI     |
|-------------------------------|--------|------|------------------|-----------------|--------------------|----------|---------|
| Gitarau - Canolradd           | FAC020 | Me   | 19:00            | 21:00           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |
| Gitarau - I Rai sydd am Wella | FAC022 | Ia   | 19:00            | 21:00           | 17/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |

### Ieithoedd

| CWRS                                    | COD    | DYDD | AMSER<br>DECHRAU | AMSER<br>DIWEDD | DYDDIAD<br>CYCHWYN | HYD      | FFI     |
|-----------------------------------------|--------|------|------------------|-----------------|--------------------|----------|---------|
| Sbaeneg - Canolradd                     | FLC001 | Maw  | 10:00            | 12:00           | 15/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |
| Sbaeneg – Uwch i Rai sydd am Wella BL 2 | FLC003 | Ma   | 18:30            | 20:30           | 15/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |
| Sbaeneg – Uwch i Rai sydd am Wella      | FLC004 | Me   | 18:30            | 20:30           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |
| Ffrangeg i Ddechreuwr                   | FLC005 | LI   | 18:30            | 20:30           | 21/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |
| Almaeneg i Ddechreuwr                   | FLC006 | Ma   | 18:30            | 20:30           | 22/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |
| Sbaeneg - Canolradd Uwch                | FLC007 | Me   | 10:00            | 12:00           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 |

### Addysg Gyffredinol

| CWRS                                                         | COD    | DYDD | AMSER<br>DECHRAU | AMSER<br>DIWEDD | DYDDIAD<br>CYCHWYN | HYD      | FFI    |
|--------------------------------------------------------------|--------|------|------------------|-----------------|--------------------|----------|--------|
| Ffotograffiaeth i ddechreuwr                                 | FGC001 | Gw   | 10:00            | 12:00           | 25/09/2026         | 10 wyth. | £86.50 |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) - Dechreuwr                    | FGC002 | Me   | 12:45            | 14:45           | 30/09/2026         | 10 wyth. | £86.50 |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) - Dechreuwr                    | FGC003 | Me   | 15:00            | 17:00           | 30/09/2026         | 10 wyth. | £86.50 |
| Archwilio Rhyfeddodau Ein Byd                                | FGC004 | LI   | 18:30            | 20:30           | 05/10/2026         | 7 wyth.  | £61.00 |
| Cyflwyniad i Weithdy Aromatherapi                            | FGC005 | Gw   | 10:00            | 14:00           | 09/10/2026         | 1 sesiwn | £20.00 |
| Ffotograffiaeth gan ddefnyddio dyfeisiau<br>technoleg clyfar | FGC006 | Sa   | 10:00            | 14:00           | 17/10/2026         | 1 sesiwn | £17.00 |
| Archwilio'r Bydysawd                                         | FGC007 | Sa   | 10:00            | 13:00           | 17/10/2026         | 1 sesiwn | £12.75 |
| Seryddiaeth – Darganfod Ryfeddodau'r<br>Bydysawd             | FGC008 | Me   | 19:00            | 21:00           | 14/10/2026         | 8 wyth.  | £69.50 |
| Cyflwyniad i Weithdy Tylino Pen Indiaidd                     | FGC009 | Gw   | 10:00            | 14:00           | 13/11/2026         | 1 sesiwn | £20.00 |
| Datgloi'r Meddwl                                             | FGC010 | Sa   | 10:00            | 13:00           | 21/11/2026         | 1 sesiwn | £12.75 |
| Cyflwyniad i Weithdy Adlewyrchneg                            | FGC011 | Gw   | 10:00            | 14:00           | 11/12/2026         | 1 sesiwn | £20.00 |

① Bydd costau am ddeunyddiau ychwanegol

② Mae cynhwysion/deunyddiau wedi'u cynnwys yng nghost y cwrs

③ Mae cynhwysion/deunyddiau wedi'u yn y sesiwn gyntaf

④ Mae costau achredu wedi'u cynnwys yn ffi'r cwrs

⑤ Mae ffioedd aelodaeth grŵp defnyddwyr y ganolfan yn berthnasol

# CANOLFAN ADDYSG GYMUNEDOL CROESYCEILIOG

The Highway, Croesyceiliog, NP44 2HF

01633 647647 Opsiwn 2

croesy.commed@torfaen.gov.uk



## FFORDD O FYW A HAMDDEN

### Celf a Chrefft

| CWRS                                                             | COD    | DYDD | AMSER<br>DECHRAU | AMSER<br>DIWEDD | DYDDIAD<br>CYCHWYN | HYD      | FFI       |
|------------------------------------------------------------------|--------|------|------------------|-----------------|--------------------|----------|-----------|
| Turnio Coed                                                      | FAC001 | LI   | 09:30            | 12:00           | 07/09/2026         | 12 wyth. | £171.60 ① |
| Turnio Coed                                                      | FAC002 | LI   | 13:00            | 15:30           | 07/09/2026         | 12 wyth. | £171.60 ① |
| Turnio Coed                                                      | FAC003 | LI   | 18:30            | 21:00           | 07/09/2026         | 12 wyth. | £171.60 ① |
| Turnio Coed                                                      | FAC004 | Ma   | 09:30            | 12:00           | 08/09/2026         | 12 wyth. | £171.60 ① |
| Turnio Coed                                                      | FAC005 | Ma   | 13:00            | 15:30           | 08/09/2026         | 12 wyth. | £171.60 ① |
| Turnio Coed                                                      | FAC006 | Ma   | 18:30            | 21:00           | 08/09/2026         | 12 wyth. | £171.60 ① |
| Cerameg a Crochenwaith                                           | FAC008 | LI   | 19:00            | 21:00           | 14/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Cerameg a Crochenwaith                                           | FAC010 | Ma   | 13:15            | 15:15           | 15/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Cerameg a Crochenwaith                                           | FAC011 | Ma   | 18:30            | 20:30           | 15/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Dylunio Gemwaith Gwifren gan ddefnyddio<br>Gwifren Copr ac Arian | FAC012 | Ma   | 16:00            | 18:00           | 15/09/2026         | 6 wyth.  | £64.50 ②  |
| Gemwaith Arian a Chopr                                           | FAC013 | Ma   | 19:00            | 21:00           | 15/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Cerameg a Crochenwaith - Uwch                                    | FAC015 | Me   | 13:15            | 15:15           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Cerameg a Crochenwaith                                           | FAC016 | Me   | 18:30            | 20:30           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Gwneud Dillad – Sgiliau Uwch                                     | FAC017 | Me   | 10:00            | 12:00           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Gwnïo - gwneud eich dillad eich hun                              | FAC018 | Me   | 12:30            | 14:30           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Gemwaith Arian a Chopr                                           | FAC019 | Me   | 19:00            | 21:00           | 16/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Cerameg a Crochenwaith                                           | FAC021 | Ia   | 19:00            | 21:00           | 17/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Gweithdy Cerameg a Chrochenwaith                                 | FAC024 | Sa   | 10:00            | 15:00           | 19/09/2026         | 1 sesiwn | £28.25 ②  |
| Tlws Crog Pren y Bywyd                                           | FAC025 | Sa   | 10:00            | 14:00           | 19/09/2026         | 1 sesiwn | £23.00 ②  |
| Turnio Coed - Ysgol Ddydd                                        | FAC026 | Sa   | 10:00            | 15:00           | 19/09/2026         | 1 sesiwn | £40.35 ②  |
| Peintio Acrylig - Dechreuwyd                                     | FAC027 | Ma   | 13:00            | 15:00           | 22/09/2026         | 10 wyth. | £92.50 ②  |
| Dyfrlliwiau                                                      | FAC028 | Me   | 18:30            | 20:30           | 07/10/2026         | 8 wyth.  | £74.50 ②  |
| Cyflwyniad i Ddyfrlliwiau                                        | FAC029 | Me   | 15:30            | 17:30           | 07/10/2026         | 6 wyth.  | £57.50 ②  |
| Peintio Acrylig I Rai sydd am Wella                              | FAC031 | Ia   | 10:00            | 12:00           | 24/09/2026         | 10 wyth. | £86.50 ①  |
| Gwnïo i Bawb                                                     | FAC032 | Ia   | 18:30            | 20:30           | 24/09/2026         | 15 wyth. | £130.50 ① |
| Gweithdy Cerameg a Chrochenwaith                                 | FAC039 | Sa   | 10:00            | 15:00           | 17/10/2026         | 1 sesiwn | £28.25 ②  |
| Jariau Decoupage addurniadol                                     | FAC040 | Sa   | 10:00            | 14:00           | 17/10/2026         | 1 sesiwn | £23.00 ②  |
| Creu Basged Aeron Helyg                                          | FAC041 | Sa   | 10:00            | 15:00           | 17/10/2026         | 1 sesiwn | £29.25 ②  |
| Turnio Coed - Ysgol Ddydd                                        | FAC042 | Sa   | 10:00            | 15:00           | 17/10/2026         | 1 sesiwn | £40.35 ②  |
| Dylunio Gemwaith Gwifren gan ddefnyddio<br>Gwifren Copr ac Arian | FAC043 | Ma   | 16:00            | 18:00           | 03/11/2026         | 6 wyth.  | £64.50 ②  |
| Gweithdy Cerameg a Chrochenwaith                                 | FAC050 | Sa   | 10:00            | 15:00           | 21/11/2026         | 1 sesiwn | £28.25 ②  |

① Bydd costau am ddeunyddiau ychwanegol

② Mae cynhwysion/deunyddiau wedi'u cynnwys yng nghost y cwrs

③ Mae cynhwysion/deunyddiau wedi'u yn y sesiwn gyntaf

④ Mae costau achredu wedi'u cynnwys yn ffi'r cwrs

⑤ Mae ffioedd aelodaeth grŵp defnyddwyr y ganolfan yn berthnasol

# CANOLFAN ADDYSG GYMUNEDOL CROESYCEILIOG

The Highway, Croesyceiliog, NP44 2HF

01633 647647 Opsiwn 2

croesy.commed@torfaen.gov.uk



## FFORDD O FYW A HAMDDEN

### Coginio

| CWRS                                                                   | COD    | DYDD | AMSER<br>DECHRAU | AMSER<br>DIWEDD | DYDDIAD<br>CYCHWYN | HYD      | FFI      |
|------------------------------------------------------------------------|--------|------|------------------|-----------------|--------------------|----------|----------|
| Dosbarth Meistr Y Cyri Perffaith                                       | FAC007 | la   | 18:00            | 20:30           | 10/09/2026         | 4 wyth.  | £50.00 ③ |
| Coginio Syml ac Iach yn yr Aer-Ffriwr                                  | FAC009 | Ma   | 10:30            | 14:30           | 15/09/2026         | 1 sesiwn | £27.00 ② |
| Coginio Syml ac Iach yn yr Aer-Ffriwr                                  | FAC014 | Me   | 16:30            | 20:30           | 16/09/2026         | 1 sesiwn | £27.00 ② |
| Siytni, Jam a Sawsiau                                                  | FAC023 | Sa   | 10:30            | 14:30           | 19/09/2026         | 1 sesiwn | £27.00 ② |
| Addurno Cacennau a Chrefft Siwgr                                       | FAC030 | la   | 10:00            | 12:00           | 24/09/2026         | 10 wyth. | £86.50 ① |
| Coginio – Bwyd o'r Dwyrain                                             | FAC033 | Ma   | 10:30            | 12:30           | 06/10/2026         | 4 wyth.  | £41.50 ③ |
| Pobi eich bara eich hun                                                | FAC034 | Ma   | 17:00            | 20:30           | 06/10/2026         | 5 wyth.  | £83.88 ③ |
